National Numeracy Day

Founding Supporter: KPMG




Mae'r **Big Number Natter** yn digwydd ledled y wlad ar gyfer y Diwrnod Rhifedd Cenedlaethol.

Mae'n ymwneud ag un syniad syml: **siarad am eich teimladau ynghylch rhifau.**

**Nid gwers fathemateg mo hon.**
**Ni chaiff neb ei brofi.**
**Does dim rhaid i neb ddatrys symiau anodd.**

Yn hytrach, mae'n gyfle i ddisgyblion **siarad am rifau yn eu bywyd bob dydd**. Gallai hyn gynnwys rhifau gartref, yn yr ysgol, mewn gemau, mewn chwaraeon, neu yn eu hobïau.

Mae rhai disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn hyderus ynghylch rhifau. Mae rhai disgyblion yn teimlo'n bryderus ynghylch mathemateg. Mae rhai'n teimlo peth o'r ddau. Mae'r teimladau hyn i gyd yn normal.

Mae rhifau i'w cael ym mhobman. Efallai y bydd y disgyblion wedi sylwi arnynt mewn perthynas â'r canlynol:

- Arian poced
- Sgorau mewn gemau
- Rhifau bysiau
- Coginio
- Y tywydd
- Eu hoedran a'u penblwyddi

## Pam y mae'n bwysig

**Nid dim ond cael yr atebion yn gywir yw ystyr mathemateg. Mae hefyd yn ymwneud â sut y mae disgyblion yn teimlo am rifau.**

Pan fydd disgyblion yn teimlo'n gyfforddus yn siarad am rifau, maent yn fwy tebygol o:

- Ofyn cwestiynau
- Rhoi cynnig arall arni os yw rhywbeth yn teimlo'n anodd
- Gofyn am help
- Teimlo'n falch o'u cynnydd

Os yw disgyblion yn cadw pryderon am fathemateg iddynt eu hunain, gall y pryderon hynny dyfu'n fwy. Wrth i ddisgyblion siarad amdanynt, mae'r pryderon yn aml yn teimlo'n llai.

Mae'r **Big Number Natter** yn helpu disgyblion i deimlo fod yna wrandawiad, dealltwriaeth a chefnogaeth ar eu cyfer.

## Beth yw Number Natter?

**Yn syml, Number Natter yw sgwrs fer am rifau a hyder.**

Gallai ddigwydd:

- Mewn ystafell ddosbarth
- Mewn cynulliad
- Mewn clwb neu grŵp
- Yn ystod amser tiwtor
- Yn rhan o wers

Gall bara am **bum munud neu fwy**. Chi sydd i benderfynu beth sy'n gweithio orau ar gyfer eich disgyblion chi.

Efallai y gallech wahodd y disgyblion i siarad am:

- Adeg pan oedd rhifau'n gwneud iddynt deimlo'n falch
- Adeg pan oedd rhifau'n teimlo'n anodd
- Y mannau lle maent yn defnyddio rhifau mewn bywyd bob dydd
- Yr hyn sy'n eu helpu wrth iddynt ddysgu mathemateg

Nid oes yna atebion cywir nac anghywir.
**Mae meddyliau pawb yn bwysig.**

Dyma'r pethau pwysicaf:

- Gwrando'n ofalus
- Bod yn amyneddgar
- Bod yn garedig
- Cofio nad yw hyn yn ymwneud â bod yn "dda" neu'n "wael" mewn mathemateg

## Sut i ddechrau un

**Mae dechrau Big Number Natter yn syml.**

Casglwch eich disgyblion at ei gilydd ac esboniwch eich bod yn mynd i gael **sgwrs gyfeillgar am rifau**, ac na fydd gofyn i neb ddatrys problemau mathemateg.

Gallech ddechrau gyda chwestiwn tebyg i hwn:

- “Beth yr ydych yn meddwl amdano wrth glywed y gair mathemateg?”
- “Ble yr ydych yn gweld rhifau bob dydd?”
- “Beth yw rhif sy'n bwysig i chi?”
- “Sut y mae rhifau’n gwneud i chi deimlo?”

Yna, yn syml, gwahoddwch y disgyblion i rannu eu meddyliau.

Efallai y byddwch yn gweld bod gan lawer o’r disgyblion deimladau a phrofiadau tebyg o ran mathemateg.

Gall siarad amdanynt helpu disgyblion i deimlo’n fwy hyderus ac yn llai unig.